Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**<u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – Asesiad Effaith Integredig</u>**

**Bydd angen Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau ar gyfer pob penderfyniad ac adolygiad polisi neu wrth weithredu unrhyw bolisi.**

- Adran 1 – Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Adran 2 – Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Adran 3 – Cynllun Corfforaethol
- Adran 4 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Adran 5 – Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Adran 6 – Hawliau Plant – "Y Ffordd Gywir"
- Adran 7 – Diogelwch Cymunedol
- Adran 8 – Y Lluoedd Arfog
- Adran 9 – Data
- Adran 10 – Ymgynghoriadau – Ymgynghori Statudol, Athrawiaeth Disgwyliad Dilys ac Egwyddorion Gunning
- Adran 11 – Monitro
- Adran 12 – Penderfynu ar y Cynnig

| Swyddog Arweiniol | Pennaeth Gwasanaeth | Maes Gwasanaeth ac Adran | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| **Kate James** | **Sarah King** | **Polisi a Phartneriaethau** | **27/02/24** |

| Amlinellwch y cynnig yn gryno, gan nodi pa newid neu benderfyniad sydd i'w wneud, a hefyd darparwch unrhyw ddogfennaeth y gellir ei defnyddio i gefnogi hyn. **Beth yw'r cynnig sydd angen ei asesu?** |
|---|
| Y cynnig sy'n cael ei gyflwyno i'w asesu yw iteriad newydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028.<br><br>O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf), mae gan y cyngor ddyletswydd statudol i wneud y canlynol:<br>• Paratoi a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb bob pedair blynedd<br>• Cynnwys pobl sydd â'r nodweddion gwarchodedig o fewn swyddogaethau a phenderfyniadau'r cyngor<br>• Paratoi a chynhyrchu adroddiadau blynyddol yn amlinellu cynnydd yn erbyn amcanion<br><br>Nod y Ddeddf yw rhoi tegwch wrth galon cymdeithas ac mae'n gyfraith sy'n amddiffyn pobl oherwydd:<br>• Oedran – Rhywun sy'n perthyn i oedran penodol (e.e. 32 oed) neu ystod o oedrannau (e.e. 18-30 oed).<br>• Anabledd – Er enghraifft, amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn hwnnw i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.<br>• Ailbennu rhywedd – Er enghraifft, pobl drawsryweddol. Pobl a gafodd eu geni i'w corff sy'n teimlo nad yw'n iawn iddyn nhw. Gallai hyn olygu eu bod am newid o fod yn fenyw i fod yn ddyn, neu o fod yn ddyn i fod yn fenyw.<br>• Priodas a phartneriaethau sifil – Diffinnir priodas fel 'undeb rhwng dyn a menyw'. Mae partneriaethau sifil yn cydnabod perthnasoedd rhwng 'cyplau o'r un rhyw' yn gyfreithiol. Rhaid i bartneriaid sifil gael eu trin yr un fath â pharau priod mewn perthynas ag ystod eang o faterion cyfreithiol. Mae'r Ddeddf yn berthnasol i'r nodwedd hon, ond dim ond mewn perthynas â'r gofyniad i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu. |

- Beichiogrwydd a mamolaeth – Y cyflwr o fod yn feichiog neu'n disgwyl babi. Mae mamolaeth yn cyfeirio at y cyfnod ar ôl yr enedigaeth ac mae'n gysylltiedig ag absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth yng nghyd-destun cyflogaeth. Yn y cyd-destun nad yw'n ymwneud â gwaith, mae amddiffyniad rhag gwahaniaethu ar sail mamolaeth am 26 wythnos ar ôl rhoi genedigaeth ac mae'n cynnwys trin menyw yn anffafriol oherwydd ei bod yn bwydo ar y fron.
- Hil – Mae hyn yn cyfeirio at grŵp o bobl a ddiffinnir gan eu hil, lliw, cenedligrwydd (gan gynnwys dinasyddiaeth), neu darddiad ethnig neu genedlaethol.
- Crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred) – Mae hyn yn cynnwys credoau crefyddol ac athronyddol, gan gynnwys diffyg cred (e.e. anffyddiaeth). Yn gyffredinol, dylai cred effeithio ar eich dewisiadau bywyd neu'r ffordd yr ydych yn byw er mwyn iddi gael ei chynnwys yn y diffiniad.
- Rhyw – Dyn neu fenyw.
- Cyfeiriadedd rhywiol – Bod yn heterorywiol, hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol.

Dyma bedwerydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol y cyngor ac mae'n nodi ein hamcanion cydraddoldeb. Ei nod yw cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb ar draws ein holl feysydd gwasanaeth a chyflawni canlyniadau ystyrlon i drigolion lleol, cymunedau, staff ac ymwelwyr. Mae hefyd yn amlinellu ein camau arfaethedig ar gyfer cyflawni ein dyletswyddau cyffredinol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, sef:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth
- Hyrwyddo cyfle cyfartal
- Meithrin perthnasau da

Fel cyngor, rydym yn cydnabod y bydd cyflawni'r cynllun hwn yn llwyddiannus yn ei gwneud yn ofynnol i ni gael fframwaith effeithiol ar waith sy'n meddu ar y canlynol:

- Arweinyddiaeth wleidyddol a phroffesiynol gref
- 'Dull Un Cyngor' ar gyfer sicrhau cydraddoldeb ar draws y sefydliad
- Nodau, amcanion a chamau gweithredu clir
- Rhaglen gynnwys ac ymgysylltu ystyrlon
- Trefniadau monitro a pherfformiad effeithiol

Cymerwyd y camau canlynol fel rhan o’r broses o ddrafftio’r amcanion newydd:

- Cynnal arolwg rhagarweiniol
- Ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu uniongyrchol i ddysgu o ‘brofiadau bywyd’
- Paratoi dogfen ymgynghori ffurfiol ac ail arolwg i ymgynghori ar yr amcanion strategol arfaethedig
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol i dderbyn adborth ar yr amcanion a awgrymwyd
- Cynnal sesiynau ymgysylltu uniongyrchol pellach gyda phobl â nodweddion gwarchodedig i lywio dogfen ymgysylltu ategol

Defnyddiwyd y gweithgarwch adborth ac ymgysylltu hwn i lunio’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd a’r amcanion arfaethedig ar gyfer 2024-2028, sef y ddogfen arfaethedig i’w hasesu.

| Adran 1 | | | |
|---|---|---|---|
| **Amlinellwch sut y bydd y cynnig yn effeithio ar unrhyw bobl neu grwpiau o bobl â nodweddion gwarchodedig. Cyfeiriwch at Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) am ragor o wybodaeth [Equality Act 2010: guidance – GOV.UK (www.gov.uk)] a chanllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol [Y Canllaw Hanfodol i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol]. Amlinellwch yn gryno isod a fydd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol o ganlyniad i'r cynnig sy'n cael ei ystyried.** | | | |
| **Nodweddion gwarchodedig** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig?** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig?** | **Amlinellwch sut y gallai'r cynnig wneud y mwyaf o unrhyw effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effaith negyddol. Nodwch unrhyw farn/tystiolaeth sydd gennych sy'n cefnogi hyn.** |
| **Oedran** *(pobl o bob oed)*<br>**Anabledd** *(pobl ag anableddau / cyflyrau hirdymor)*<br>**Ailbennu rhywedd** *(unrhyw un sydd â hunaniaeth rhywedd neu fynegiant rhywedd sy'n wahanol i'r rhyw a roddwyd iddo adeg ei enedigaeth)*<br>**Priodas neu bartneriaeth sifil** *(pobl* | Mae'r cynllun cydraddoldeb yn amlinellu trwy gyfres o amcanion a chamau gweithredu allweddol sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn cefnogi'r rhai â nodweddion gwarchodedig yn sefydliadol a thrwy'r gwasanaethau a ddarparwn.<br><br>Mae'r cynllun yn amlinellu ein hymrwymiad, sy'n ymdrechu i gael effaith | Nod y cynllun yw lliniaru unrhyw effeithiau negyddol drwy sicrhau bod Asesiadau Effaith Integredig yn cael eu cynnal a bod y rhai â nodweddion gwarchodedig yn cael eu hystyried ar draws y sefydliad. | Ein nod yw sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r rheini â nodweddion gwarchodedig drwy sicrhau bod ein camau gweithredu yn erbyn ein hamcanion cytûn yn ystyried yr adborth a gafwyd drwy gydol y broses ymgynghori, yn ogystal â thrwy ymgysylltu parhaus drwy gydol y broses o gyflawni'r cynllun.<br><br>Rydym hefyd yn anelu at adeiladu ar y grŵp cyfeirio rhanddeiliaid i sicrhau bod gennym atebolrwydd parhaus drwy gydol cylch cyflawni'r cynllun. |

<table>
<tr><td>sy’n briod neu mewn partneriaeth sifil)</td><td rowspan="6">gadarnhaol, yn enwedig ar y rhai sydd â nodwedd warchodedig.<br><br>Mae hefyd yn tynnu sylw at y camau allweddol y byddwn yn eu cymryd er mwyn adeiladu ar waith blaenorol dros y pedair blynedd nesaf yn ogystal â sicrhau ein bod yn cyflawni camau gweithredu Llywodraeth Cymru o ddod yn Gymru wrth-hiliol erbyn 2030 a gweledigaeth cynllun gweithredu LHDTC+ o wneud Cymru y wlad fwyaf cyfeillgar i bobl LHDTC+ yn Ewrop. Teimlir y bydd ymgorffori hyn oll o dan un cynllun ymbarél gyda chamau gweithredu allweddol hefyd yn caniatáu cydnabod croestoriadedd.</td><td rowspan="6"></td><td rowspan="6"></td></tr>
<tr><td>Beichiogrwydd a mamolaeth (merched sy’n feichiog a/neu ar absenoldeb mamolaeth)</td></tr>
<tr><td>Hil (pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a gwahanol gefndiroedd hiliol)</td></tr>
<tr><td>Crefydd neu gred (pobl â gwahanol grefyddau a chredoau, gan gynnwys pobl heb unrhyw gredoau)</td></tr>
<tr><td>Rhyw (menywod a dynion, merched a bechgyn, a’r rhai sy’n hunanddiffinio eu rhyw)</td></tr>
<tr><td>Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw, deurywiol, heterorywiol, arall)</td></tr>
</table>

**SYLWCH:** Dim ond os yw cynigion o natur strategol neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol y mae angen cwblhau Adran 2. Gweler tudalen 6 o ganllawiau Llywodraeth Cymru Paratoi ar gyfer Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

| **Adran 2**<br>**Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol yn Unig)**<br>*Mae dyletswydd economaidd-gymeithasol Llywodraeth Cymru yn darparu fframwaith er mwyn sicrhau bod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ar flaen y gad wrth wneud penderfyniadau.* | | | |
|---|---|---|---|
| **Ystyriwch y grwpiau agored i niwed isod ac ystyriwch sut y gallai'r cynnig effeithio arnynt:**<br>➢ Rhieni sengl a theuluoedd agored i niwed<br>➢ Pobl â lefelau llythrennedd/rhifedd isel<br>➢ Pensiynwyr<br>➢ Plant sy'n derbyn gofal<br>➢ Pobl ddigartref<br>➢ Gofalwyr<br>➢ Cymuned y Lluoedd Arfog<br>➢ Myfyrwyr<br>➢ Aelwydydd un oedolyn<br>➢ Pobl yn camddefnyddio sylweddau<br>➢ Pobl sydd wedi bod yn y system lloches<br>➢ Pobl o bob oed yn gadael lleoliad gofal<br>➢ Pobl sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru (MALIC)<br>➢ Pobl sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol | | | |
| **Diffiniadau o anfantais economaidd-gymdeithasol** | **A fydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol, negyddol neu niwtral ar yr isod?** | **Sut allech chi liniaru'r effeithiau negyddol a amlinellwyd?** | **Amlygwch unrhyw dystiolaeth sydd wedi'i hystyried** |
| **Incwm isel / tlodi incwm** *(yn methu fforddio cynnal taliadau rheolaidd fel biliau, bwyd, dillad, cludiant ac ati)*<br>**Cyfoeth isel a/neu ddim cyfoeth** *(digon o arian i dalu costau byw sylfaenol a thalu biliau ond heb unrhyw arbedion i ddelio ag* | **Amcan Cydraddoldeb 6:**<br>***Byddwn yn ymdrechu i leihau anghydraddoldeb a achosir gan dlodi i bobl â nodweddion gwarchodedig.***<br><br>Nod y cynllun ar gyfer 2024-2028 yw: | Rydym yn cydnabod drwy gydol yr ymgynghoriad bod yna ffactorau allanol na all y cyngor ei newid ar ei ben ei hun neu nad oes ganddo unrhyw ddylanwad drostynt. Fodd bynnag, fel cyngor rydym wedi ymrwymo i rannu gwybodaeth a gweithio | • Adborth ymgynghori<br>• Adroddiadau Llywodraeth Cymru<br>• Data'r Cyfrifiad<br>• Asesiadau effaith ar y gymuned<br>• Data hybiau cymunedol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *unrhyw wariant annisgwyl a dim darpariaethau ar gyfer y dyfodol)*<br>**Amddifadedd materol** *(methu cael mynediad at nwyddau a gwasanaethau sylfaenol, h.y. cynhyrchion ariannol fel yswiriant bywyd, trwsio/amnewid nwyddau trydanol sydd wedi torri, cartref cynnes, hobïau ac ati)*<br>**Amddifadedd ardal** *(ble rydych chi'n byw (ardaloedd gwledig), lle rydych chi'n gweithio (hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus), effaith ar yr amgylchedd?*<br>**Cefndir economaidd-gymdeithasol** *(dosbarth cymdeithasol, h.y. addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni)*<br>**Anfantais economaidd-gymdeithasol** *(pa effaith gronnol fydd y cynnig yn ei chael ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd(ion) (g)warchodedig neu ba mor agored i niwed ydynt neu oherwydd eu bod eisoes dan anfantais)* | • Ystyried adborth o'r ymgynghoriad ac ymgysylltu wyneb yn wyneb wrth ddatblygu'r cynllun, yr amcanion a'r camau gweithredu<br>• Bod yn hyblyg er mwyn sicrhau ei fod yn ymgorffori newidiadau y gall fod eu hangen drwy gydol ei gylchred<br>• Adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes wedi digwydd<br>• Datblygu camau gweithredu allweddol a gaiff eu monitro'n rheolaidd ac yr adroddir arnynt yn flynyddol<br>• Sicrhau bod y camau gweithredu yn cael eu cyflawni yn ogystal â chael eu diweddaru'n flynyddol i sicrhau gwelliant parhaus<br>• Ystyried gwaith a pholisi traws-sefydliadol<br>• Ystyried y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol wrth gyflawni, adolygu a phennu camau gweithredu<br>• Rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid er mwyn | gyda phartneriaid i liniaru effeithiau negyddol ar y rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn ogystal â sicrhau bod ein gwasanaethau yn addas at y diben. | • Canfyddiadau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn adroddiad "A yw Cymru'n Decach?" |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cynyddu tebygolrwydd canlyniadau cadarnhaol | | |

| **Adran 3 – Cynllun Corfforaethol**<br>*Amlinellwch unrhyw gysylltiadau gan y cynnig â'r Cynllun Corfforaethol –* Cynllun Corfforaethol Blaenau Gwent 2022/27 | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 1 –** Cynyddu dysgu a sgiliau i'r eithaf ar gyfer pawb i greu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a chydnerth | **Amcan Cydraddoldeb 3:**<br>Byddwn yn creu diwylliant dysgu teg a chynhwysol i bob plentyn ac unigolyn ifanc gyda ffocws ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.<br><br>Mae deall eich hunaniaeth yn rhan bwysig o ddatblygiad plentyn. Mae'n digwydd ym mlynyddoedd cynnar ei fywyd ac yn ei ddilyn i fyd oedolion.<br><br>Nid yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn ein lleoliadau addysg a dysgu yn gysyniad newydd ac mae'n parhau i fod yn her barhaus ym Mlaenau Gwent.<br><br>Er mwyn darparu'r sylfaen ar gyfer creu gwell rhagolygon bywyd i'n plant a'n pobl ifanc, rydym yn cydnabod yr angen i ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein holl amgylcheddau dysgu. |
| **Blaenoriaeth 2 –** Ymateb i'r argyfwng natur a newid hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig | |

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

| **Adran 3 – Cynllun Corfforaethol**<br>*Amlinellwch unrhyw gysylltiadau gan y cynnig â'r Cynllun Corfforaethol –* Cynllun Corfforaethol Blaenau Gwent 2022/27 | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 3** – Cyngor uchelgeisiol ac arloesol yn darparu gwasanaethau ansawdd da ar yr amser cywir ac yn y lle cywir | **Amcan Cydraddoldeb 5:**<br>Byddwn yn sicrhau ymgysylltiad a chyfranogiad effeithiol ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig.<br><br>Fel cyngor, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb yn chwarae eu rhan wrth gyflawni ein gweledigaeth a'n rhaglen uchelgeisiol ar gyfer gweithredu a newid. Yn allweddol i hyn bydd sut rydym yn ymgysylltu'n benodol â phobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ac sydd â nodweddion gwarchodedig. Rydym hefyd yn deall sut mae agweddau ar hunaniaeth rhywun yn cyfuno i greu gwahaniaethu a breintiau gwahanol a lluosog. Mae rhan o'n dull ar gyfer cyflawni'r amcan hwn wedi'i nodi yn ein Strategaeth Ymgysylltu Corfforaethol 2023-27. |
| **Blaenoriaeth 4** – Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, annibynnol a chydnerth | **Amcan Cydraddoldeb 4:**<br>Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi cymunedau cynhwysol, diogel a chydlynol.<br><br>Mae ein hymrwymiad i nodau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) o gefnogi 'Cymru sy'n fwy cyfartal' a 'Chymru o gymunedau cydlynol' yn parhau. Gan weithio mewn partneriaeth â Thîm Cydlyniant Cymunedol Gorllewin Gwent ochr yn ochr â'n Tîm Diogelwch Cymunedol, rydym yn darparu rhaglenni a mentrau sy'n cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, yn dathlu amrywiaeth, ac yn dod â chymunedau ynghyd. |

**Adran 4 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Y Pum Ffordd o Weithio**

*Egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor ystyried sut mae unrhyw gynnig yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio fel llinell sylfaen.*

| Pum ffordd o weithio | Sut ydych chi wedi defnyddio'r egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth lunio'r cynnig? |
|---|---|
| **Hirdymor** | Ystyriwch effaith hirdymor y cynnig ar allu cymunedau i sicrhau eu llesiant.<br><br>Mae'r cynllun yn amlinellu'r amcanion ar gyfer y pedair blynedd nesaf, ond mae hyn yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan y cyngor yn y tair fersiwn flaenorol o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, sydd gyda'i gilydd yn rhychwantu 12 mlynedd. Mae'r cynllun yn dangos sut rydyn ni'n meddwl y gallwn ni barhau i wneud cynnydd dros y pedair blynedd nesaf i wella lles y gymuned. Credwn, trwy gynnwys staff a defnyddwyr gwasanaeth â nodweddion gwarchodedig, a sicrhau arweinyddiaeth wleidyddol a sefydliadol dda, y byddwn yn cyflawni'r amcanion a nodir yn y cynllun. |
| **Atal** | Ystyriwch sut mae'r cynnig yn atal problemau rhag digwydd neu waethygu.<br><br>Mae'r cynllun yn egluro sut y byddwn yn cyflawni ein rhwymedigaeth o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel sefydliad i wella'r diwylliant a'r amgylchedd gwaith a sut rydym am fod yn sefydliad teg a chynhwysol sy'n hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant. Rydyn ni'n meddwl y bydd hyn yn creu amgylchedd gwaith lle mae staff yn teimlo'n hapus ac yn cael eu cefnogi, ac felly'n creu man lle mae pobl eisiau aros a gweithio.<br><br>Rydym hefyd yn esbonio sut y byddwn yn rhyngweithio â grwpiau ac unigolion â nodweddion gwarchodedig, ac rydym hefyd yn dangos pa mor bwysig yw hi i ni ein bod yn dangos sut yr ydym fel cyngor yn gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth. Rydyn ni'n meddwl, drwy ddangos hyn, y bydd yn helpu ein cymunedau, drwy godi ymwybyddiaeth, i leihau unrhyw densiynau neu wahaniaethu, gan greu'r |

| | |
|---|---|
| | cymunedau lle mae pobl eisiau byw a gweithio.<br><br>Drwy wneud yn siŵr ein bod yn monitro ac yn gweithredu’r gwaith asesu effaith integredig, a thrwy gynnwys y rheini â nodweddion gwarchodedig mewn penderfyniadau sy’n effeithio arnynt, byddwn yn sicrhau dealltwriaeth lawn ac yn creu arferion ar y cyd a fydd yn ein helpu i greu’r gwasanaethau mwyaf addas i ddiwallu anghenion y sefydliad a’r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. |
| **Integreiddio**<br> | Ystyriwch sut y bydd eich cynnig yn effeithio ar wasanaethau eraill a ddarperir yn ein cymunedau (gallai’r rhain fod yn wasanaethau’r cyngor neu’n wasanaethau a ddarperir gan sefydliadau neu grwpiau eraill).<br><br>Mae’r cynnig wedi’i lywio gan fewnbwn partneriaid, staff, grwpiau, ac unigolion yn y gymuned, sydd wedi bod yn hanfodol i ddatblygiad y cynllun. Mae’r cynllun pedair blynedd yn amlinellu sut y byddwn yn adeiladu ar waith blaenorol, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth, i ddarparu’r gwasanaethau mwyaf effeithiol sy’n cyfateb i anghenion ein cymunedau. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu drwy gydol ei gylchred a bydd cyfathrebu rheolaidd gyda’r rhai sydd wedi cyfrannu at ei ddatblygiad yn cael ei gynnal er mwyn cryfhau’r perthnasoedd hynny a chael adborth parhaus.<br><br>Byddwn yn parhau i weithio ar integreiddio’r Asesiad Effaith Integredig i helpu’r sefydliad cyfan i ddeall effeithiau unrhyw newidiadau i wasanaethau neu bolisïau neu wrth eu gweithredu, ar y sefydliad a’r gymuned ehangach. |
| **Cydweitho**<br> | Ystyriwch sut yr ydych yn gweithio gyda gwasanaethau’r cyngor neu wasanaethau a ddarperir gan sefydliadau neu grwpiau eraill yn ein cymunedau.<br><br>Crëwyd y cynllun trwy sesiynau ymgynghori a oedd naill ai’n bersonol neu ar-lein. Cafodd staff hefyd gyfle i lenwi arolwg a rhannu eu barn. Roedd y mewnbwn hwn, ynghyd â phrofiad personol, yn llywio datblygiad y cynllun. Cynhaliom hefyd sesiynau tîm rheoli adrannol gyda’r gwahanol gyfarwyddiaethau i godi ymwybyddiaeth a derbyn adborth. Bydd y cynllun yn cael ei olrhain fel rhan o’r broses adrodd gorfforaethol i sicrhau atebolrwydd ac ymrwymiad i’r cynllun a’n hymagwedd at gydraddoldeb fel sefydliad. Byddwn yn ehangu’r grŵp cyfeirio rhanddeiliaid, a fydd yn cynnwys staff (swyddogion ac aelodau sefydliadol a chymunedol), i gynnal cyfathrebu ac adborth trwy gydol y cyfnod gweithredu. Byddwn hefyd yn gweithio gyda gwasanaethau a phartneriaid i amlygu’r gwaith a wneir yn yr adroddiad blynyddol yn ogystal â chasglu profiadau personol gwerthfawr. |

| | |
|---|---|
| **Cynnwys**<br> | Ystyriwch sut yr ydych yn cynnwys pobl sydd â diddordeb yn y cynnig hwn a sicrhau eu bod yn cynrychioli amrywiaeth ein cymunedau.<br><br>Mae'r cynllun yn ystyried canfyddiadau ein gweithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori a gynhaliwyd yn benodol ar gyfer y cynllun hwn, sydd wedi cynnwys 160 o bobl â phrofiadau bywyd o bob rhan o'r nodweddion gwarchodedig a nodwyd.<br><br>Ar ben hynny, rydym wedi cael 48 o unigolion yn cymryd rhan drwy holiadur ar-lein, i annog pobl i rannu eu barn a'u profiadau, a siarad â ni'n fras am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.<br><br>Casglwyd a dadansoddwyd canlyniadau'r ymgynghoriad a'u defnyddio i greu ein hamcanion arfaethedig yn y ddogfen ymgynghori. Gofynnom eto i'r cyhoedd a oeddem wedi adlewyrchu eu hadborth yn yr amcanion arfaethedig drwy ail arolwg. Buom hefyd yn ymgysylltu ag amrywiol rwydweithiau a grwpiau lleol wyneb yn wyneb, fel y crybwyllwyd uchod. I gael adborth manylach, gweler y ddolen: Adborth Ymgysylltu ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol<br><br>Heblaw am yr ymgynghoriad cyhoeddus, rydym hefyd wedi ymgynghori drwy ein strwythurau rheoli mewnol ar yr amcanion a awgrymwyd ac wedi cadarnhau eu bod yn cytuno â'r wybodaeth a rannwyd gan weithwyr proffesiynol mewn perthynas â chydraddoldeb. |

| Sut mae eich cynnig yn cysylltu â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru? Nodwch isod. |
|---|
| 1. **CYMRU LEWYRCHUS …** cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| **Amcan Cydraddoldeb 3**: Byddwn yn creu diwylliant dysgu teg a chynhwysol i blant a phobl ifanc â nodweddion gwarchodedig.<br>**Amcan Cydraddoldeb 6**: Byddwn yn ymdrechu i leihau anghydraddoldeb a achosir gan dlodi.<br><br>Mae'r cynllun yn nodi sut y byddwn yn sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael eu haddysgu mewn amgylchedd diogel a chynhwysol er mwyn eu helpu i dyfu, gan roi'r sgiliau iddynt symud ymlaen i addysg bellach neu gael cyflogaeth ystyrlon. Mae ffocws hefyd ar sut rydym yn sicrhau integreiddio o fewn cymunedau i sicrhau llesiant a chymunedau cydlynol yn ogystal â gweithio ar y cyd i fynd i'r afael â materion a achosir gan dlodi er mwyn meithrin Cymru lewyrchus.<br><br>*Mae deall eich hunaniaeth yn rhan bwysig o ddatblygiad plentyn. Mae'n digwydd ym mlynyddoedd cynnar ei fywyd ac yn ei ddilyn i fyd oedolion.*<br><br>*Nid yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn ein lleoliadau addysg a dysgu yn gysyniad newydd ac mae'n parhau i fod yn her barhaus ym Mlaenau Gwent. Gwyddom fod diwylliannau dysgu teg a chynhwysol yn hyrwyddo tegwch, mynediad, cyfranogiad a chyflawniad i bob dysgwr, waeth beth fo'u hunaniaeth, gallu neu amgylchiadau.*<br><br>*Rydym wedi ymrwymo i fodloni ein gofynion o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011, sy'n cynnwys mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a achosir gan dlodi. Rydym yn ceisio sicrhau bod y rhai sy'n profi tlodi, neu'r rhai sy'n byw mewn safonau byw llai ffafriol, yn cael eu hystyried yn ystod prosesau gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarparwn.* |
| 2. **CYMRU GYDNERTH …** cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid hinsawdd). Meddyliwch sut y bydd eich gweithgarwch yn ystyried gwarchod a gwella bioamrywiaeth. |

| |
|---|
| |
| 3. **CYMRU IACHACH …** cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu'n llawn mewn partneriaeth â staff, cymunedau a phartneriaid, sydd wedi helpu i lunio'r amcanion ar gyfer y pedair blynedd nesaf.<br><br>Nod y cynllun yw nodi sut y dylem fod yn cynnwys y rhai sy'n uniaethu â nodwedd warchodedig wrth ddatblygu, newid neu weithredu gwasanaethau.<br><br>Mae'r cynllun hefyd yn nodi sut y byddwn yn cyflawni nodau Llywodraeth Cymru o ddod yn Gymru wrth-hiliol erbyn 2030 a sut y byddwn yn cyfrannu at gynllun gweithredu LHDTC+ Cymru. Trwy fod yn gynhwysol a chodi ymwybyddiaeth o hawliau a dewisiadau pobl, byddwn yn cefnogi ein staff a'n cymunedau i wneud dewisiadau bywyd iach yn ogystal â deall y rhwystrau / y bryderon a godwyd. |
| 4. **CYMRU SY'N FWY CYFARTAL …** cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol). |
| Mae'r cynllun yn nodi sut yr ydym ni fel sefydliad yn bwriadu cyflawni'r gwaith hwn dros y pedair blynedd nesaf. Nod y cynllun yw bod yn gynhwysol a deall rhwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau neu sy'n atal pobl rhag cyrraedd eu llawn botensial. Mae'r cynllun yn nodi sut y byddwn yn adeiladu ar waith y gorffennol a sut y byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r rhai â nodweddion gwarchodedig i sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.<br><br>Byddwn yn gwneud hyn gyda chyfres o gamau gweithredu yn erbyn pob un o'n hamcanion. Mae'r amcanion yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a theimlwn y bydd cyflawni'r camau hyn nid yn unig yn cyflawni ein dyletswyddau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ond hefyd yn helpu tuag at y nod o gyflawni "Cymru sy'n fwy cyfartal". |
| 5. **CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS …** cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |

**Amcan Cydraddoldeb 4:**
*Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi cymunedau cynhwysol, diogel a chydlynol.*

Mae ein hymrwymiad i nodau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) o gefnogi 'Cymru sy'n fwy cyfartal' a 'Chymru o gymunedau cydlynol' yn parhau. Gan weithio mewn partneriaeth â Thîm Cydlyniant Cymunedol Gorllewin Gwent ochr yn ochr â'n Tîm Diogelwch Cymunedol, rydym yn darparu rhaglenni a mentrau sy'n cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, yn dathlu amrywiaeth, ac yn dod â chymunedau ynghyd.

6. **CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU …** cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

Mae ein cynllun yn cyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol a'n Strategaeth ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg.

7. **CYMRU SY'N GYFRIFOL AR LEFEL FYD-EANG …** cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

**Adran 5 – Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg**

*Mae Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor roi 'sylw dyledus' i'r effaith gadarnhaol neu negyddol y gallai unrhyw gynnig ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.* Safonau'r Gymraeg

| Gofyniad | A oes gan y cynnig unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral o ran yr isod? | Beth ellir ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol? | Dangoswch unrhyw dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ffurfio'r farn hon |
|---|---|---|---|
| **Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.** *Safonau 88-93 yn benodol* | Dim effeithiau negyddol yn y cynllun newydd ar gyfer 2024-2028. Mae'r cynllun yn cyd-fynd â'r Strategaeth ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg ac yn cydnabod y canlynol:<br>• Dylai ein staff a'n cymunedau allu hyrwyddo'r Gymraeg<br>• Dylent allu sgwrsio yn Gymraeg neu gyrchu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg<br>• Dylent gael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg<br>• Bydd y cynllun yn cael ei gynhyrchu yn y Gymraeg<br>• Bydd ein hadroddiadau blynyddol hefyd ar gael yn y Gymraeg | Rydym yn cadw at Safonau'r Gymraeg.<br><br>Rydym yn sicrhau bod pob dogfen, fel y cynllun a'r adroddiad blynyddol, yn cael eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg. | Mae gennym Strategaeth ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg a dyletswydd o dan Safonau'r Gymraeg. |
| **Pa gyfleoedd sydd ar gael i hyrwyddo'r Gymraeg?** *e.e. statws, defnydd o wasanaethau Cymraeg, defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd yn y gwaith/cymuned* | | | |
| **Pa gyfleoedd sydd ar gael i rywun ddefnyddio'r Gymraeg?** *e.e. staff, preswylwyr ac ymwelwyr* | | | |
| **A yw'r Gymraeg wedi'i hystyried er mwyn peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?** | | | |

| **Adran 6 – Y Ffordd Gywir:** Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru<br><br>Mae dogfen "Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru" yn fframwaith ar gyfer gweithio gyda phlant sy'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'n gosod CCUHP wrth wraidd cynllunio a darparu gwasanaethau ac yn integreiddio hawliau plant i bob agwedd ar wneud penderfyniadau, polisi ac ymarfer. Mae fframwaith y Ffordd Gywir yn canolbwyntio ar dair prif thema, sef cyfranogiad, darpariaeth ac amddiffyn. | | | |
|---|---|---|---|
| **Nodweddion gwarchodedig** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar y dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant?** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar y dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant?** | **Amlinellwch sut y gallai'r cynnig wneud y mwyaf o unrhyw effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effaith negyddol. Nodwch unrhyw farn/tystiolaeth sydd gennych sy'n cefnogi hyn.** |
| **Cyfranogiad**<br>(plentyn neu berson ifanc fel rhywun sy'n cyfrannu'n weithredol at gymdeithas fel dinesydd) | Mae'r cynllun newydd yn amlinellu sut rydym yn bwriadu adeiladu ar y gwaith cyfranogi gyda phlant a phobl ifanc drwy'r canlynol:<br><br>• Y fforwm ieuenctid<br>• Yr Uwch-Gyngor Plant<br>• Pwyllgor craffu'r cyngor | Nid oes gan y cynllun unrhyw effeithiau negyddol. Mae'r cynllun yn nodi sut rydym yn bwriadu sicrhau ymgysylltiad a chyfranogiad plant a phobl ifanc. | Trwy barhau i adeiladu ar y gwaith a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf, teimlir y bydd y cynllun yn cyfrannu at sicrhau'r canlyniadau mwyaf posibl i blant a phobl ifanc. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Y tîm 14+<br>• Gofalwyr ifanc<br>• Y gwasanaeth ieuenctid<br>• Grwpiau LHDTC+<br>• Plant a phobl ifanc sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr<br>• Plant a phobl ifanc ag anabledd dysgu neu anabledd corfforol<br><br>Ymgynghorwyd â phlant a phobl ifanc a chawsant eu cynnwys wrth ddatblygu'r cynllun. | | |
| **Darpariaeth**<br>(hawliau sylfaenol plant a phobl ifanc i oroesi a datblygu) | Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys drwy gydol y broses o gyflawni'r cynllun.<br><br>Bydd y gwaith parhaus o ran monitro ac | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | integreiddio'r broses o asesu effaith integredig yn y sefydliad ymhellach yn cael effaith gadarnhaol o ran cynhwysiant a deall yr effeithiau y gall datblygu polisi neu newid gwasanaeth eu cael ar blant a phobl ifanc. | | |
| **Amddiffyn**<br>(mae plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn rhag camfanteisio, cam-drin neu wahaniaethu) | Mae'r cynllun yn amlinellu sut y byddwn yn creu diwylliant sy'n ddiogel i blant a phobl ifanc; mae hefyd yn sôn am gryfhau dulliau adrodd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn rhag camfanteisio, cam-drin neu wahaniaethu.<br><br>Bydd y cynllun yn cael ei fabwysiadu ar draws pob adran, gan gynnwys addysg, i sicrhau ein bod yn gweithio mewn partneriaeth. Mae ein swyddog cydraddoldeb yn | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | eistedd ar rwydwaith cyfranogiad Cymru, grŵp cyfranogiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ac Is-grŵp Diogelu Gwent. | | |

**Adran 7 – Diogelwch Cymunedol**

**Dyletswydd i Ystyried Goblygiadau Trosedd ac Anhrefn**

Mae adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol arfer y swyddogaethau hynny ar drosedd ac anhrefn, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad arall sy'n effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, camddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill, aildroseddu, a thrais difrifol, ynghyd â'r angen i wneud popeth a all yn rhesymol i atal y rhain rhag digwydd.

| **Effeithiau** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar drosedd ac anhrefn?** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar drosedd ac anhrefn?** | **Amlinellwch sut y gallai'r cynnig wneud y mwyaf o unrhyw effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effaith negyddol. Nodwch unrhyw farn/tystiolaeth sydd gennych sy'n cefnogi hyn.** |
|---|---|---|---|
| **Trosedd** (ystyriwch yr effaith ar bob un: dioddefwyr, troseddwyr a chymdogaethau) | Mae'r cynllun yn nodi sut y byddwn ni fel sefydliad yn gweithio tuag at Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector | Nod y cynllun yw lliniaru effeithiau negyddol mewn perthynas â diogelwch cymunedol o fewn camau a gymerir mewn | Trwy weithio mewn partneriaeth, bydd rhannu gwybodaeth yn helpu i wneud y mwyaf o ganlyniadau cadarnhaol a lleihau unrhyw ganlyniadau negyddol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad sy'n effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol** (ystyriwch yr effaith ar bob un: dioddefwyr, troseddwyr, cymdogaethau a mannau gwyrdd) | Cyhoeddus. Rydym yn deall y bydd adnabod ein cymunedau a deall y materion yn ein helpu i sicrhau ein bod yn cydweithio er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol tuag at gyflawni cymunedau diogel a chydlynol.<br><br>Mae gan ein cynllun amcan penodol gyda chamau gweithredu a fydd yn ein helpu i barhau i adeiladu ar waith cadarnhaol gyda Thîm Cydlyniant Cymunedol Gwent a'r Tîm Diogelwch Cymunedol, yn ogystal â'n rhaglen adsefydlu, i wella'n barhaus wrth symud ymlaen.<br><br>Mae'r cynllun yn amlinellu sut y byddwn yn sicrhau bod camau'n cael eu cymryd er mwyn | perthynas ag **Amcan Cydraddoldeb 4:** ***Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi cymunedau cynhwysol, diogel a chydlynol.*** | |
| **Camddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill** (meddyliwch am blant, oedolion, teuluoedd a chymunedau agored i niwed) | | | |
| **Aildroseddu** (meddyliwch am bobl ifanc ac oedolion, dioddefwyr, teuluoedd, cymunedau) | | | |
| **Trais difrifol** (meddyliwch am bobl ifanc agored i niwed, oedolion agored i niwed, dioddefwyr, teuluoedd, cymunedau) | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwrthderfysgaeth**<br>(pobl a lleoedd sy'n agored i derfysgaeth neu eithafiaeth dreisgar) | gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o Gymru wrth-hiliol erbyn 2030, yn ogystal â sicrhau bod gennym ffocws ar gyfer y cynllun LHDTC+.<br><br>**Amcan Cydraddoldeb 4:**<br>***Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi cymunedau cynhwysol, diogel a chydlynol.***<br><br>Mae ein hymrwymiad i nodau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) o gefnogi 'Cymru sy'n fwy cyfartal' a 'Chymru o gymunedau cydlynol' yn parhau. Gan weithio mewn partneriaeth â Thîm Cydlyniant Cymunedol Gorllewin Gwent ochr yn ochr â'n Tîm Diogelwch Cymunedol, rydym yn darparu rhaglenni a mentrau sy'n cynyddu ymwybyddiaeth a | | |
| **Cydlyniant cymunedol**<br>(ceiswyr lloches, mudwyr, dioddefwyr troseddau casineb, tensiynau cymunedol) | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | dealltwriaeth, yn dathlu amrywiaeth, ac yn dod â chymunedau ynghyd. | | |

| **Adran 8 – Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog** [Canllawiau Statudol Drafft ar Gyfamod y Lluoedd Arfog – Terfynol.pdf] | | | |
|---|---|---|---|
| **Effeithiau** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar gymuned y Lluoedd Arfog?** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar gymuned y Lluoedd Arfog?** | **Amlinellwch sut y gallai'r cynnig wneud y mwyaf o unrhyw effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effaith negyddol. Nodwch unrhyw farn/tystiolaeth sydd gennych sy'n cefnogi hyn.** |
| **Iechyd**<br>• Darparu gwasanaethau<br>• Cynllunio ac ariannu<br>• Cydweithio rhwng cyrff a gweithwyr proffesiynol<br><br>Mae'r swyddogaethau gofal iechyd hyn o fewn cwmpas y ddyletswydd yn y lleoliadau a ganlyn: | **Amcan Cydraddoldeb 6:** ***Byddwn yn ymdrechu i leihau anghydraddoldeb a achosir gan dlodi i bobl â nodweddion gwarchodedig.***<br><br>Nod y cynllun ar gyfer 2024-2028 yw: | Rydym yn cydnabod drwy gydol yr ymgynghoriad bod agweddau megis ffactorau allanol na all y cyngor ei newid ar ei ben ei hun neu nad oes ganddo unrhyw ddylanwad drostynt. Fodd bynnag, fel cyngor rydym wedi ymrwymo i rannu | Nod y cynllun yw lleihau effeithiau negyddol a gwneud y mwyaf o ganlyniadau cadarnhaol. Hefyd, drwy barhau i weithio mewn partneriaeth â'r swyddog rhanbarthol sydd gennym ar gyfer y Lluoedd Arfog, teimlwn y gallwn barhau â'r gwaith da sydd eisoes wedi dechrau, yn ogystal â pharhau i godi ymwybyddiaeth a gwella bywydau'r rhai o gymuned y Lluoedd Arfog. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| • Gwasanaethau gofal sylfaenol y GIG, gan gynnwys practisau cyffredinol, fferyllfeydd cymunedol, gwasanaethau deintyddol y GIG, gwasanaethau optometreg y GIG, a gwasanaethau sgrinio iechyd y cyhoedd<br>• Gwasanaethau gofal eilaidd y GIG, gan gynnwys gofal brys a gofal argyfwng, gwasanaethau ysbyty a chymunedol, gofal arbenigol, gwasanaethau iechyd meddwl, a gwasanaethau anghenion ychwanegol (fel y bo'n berthnasol)<br>• Gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan awdurdodau lleol, gan gynnwys gwasanaethau iechyd rhywiol a gwasanaethau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol | • Ystyried adborth o'r ymgynghoriad ac ymgysylltu wyneb yn wyneb wrth ddatblygu'r cynllun, yr amcanion a'r camau gweithredu<br>• Bod yn hyblyg er mwyn sicrhau ei fod yn ymgorffori newidiadau y gall fod eu hangen drwy gydol ei gylchred<br>• Adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes wedi digwydd<br>• Datblygu camau gweithredu allweddol a gaiff eu monitro'n rheolaidd ac yr adroddir arnynt yn flynyddol<br>• Sicrhau bod y camau gweithredu yn cael eu cyflawni yn ogystal â chael eu diweddaru'n flynyddol i sicrhau gwelliant parhaus | gwybodaeth a gweithio gyda phartneriaid i liniaru effeithiau negyddol ar y rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn ogystal â sicrhau bod ein gwasanaethau yn addas at y diben. | |
| **Addysg**<br>• Derbyniadau | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| • Cyrhaeddiad addysgol a'r cwricwlwm<br>• Lles plant<br>• Cludiant<br>• Presenoldeb<br>• Cymorth anghenion ychwanegol<br>• Defnyddio cyllid y Premiwm Disgybl Gwasanaeth (Lloegr yn unig)<br><br>Mae'r swyddogaethau addysg hyn o fewn cwmpas y ddyletswydd mewn lleoliadau addysg orfodol – hynny yw, ysgolion cynradd ac uwchradd ac, ar gyfer Lloegr yn unig, addysg bellach orfodol. Nid yw'r ddyletswydd yn cwmpasu lleoliadau meithrin (addysg blynyddoedd cynnar), addysg uwch, na lleoliadau addysg wirfoddol eraill i oedolion. | • Ystyried gwaith a pholisi traws-sefydliadol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r "dull un cyngor"<br>• Ystyried y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol wrth gyflawni, adolygu a phennu camau gweithredu<br>• Rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid er mwyn cynyddu tebygolrwydd canlyniadau cadarnhaol<br><br>**Amcan Cydraddoldeb 3:**<br>Byddwn yn creu diwylliant dysgu teg a chynhwysol i blant a phobl ifanc â nodweddion gwarchodedig.<br><br>Mae'r cynllun yn nodi sut y byddwn yn sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael eu haddysgu mewn | | |
| **Tai**<br>• Polisi dyrannu tai cymdeithasol | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| • Strategaethau tenantiaeth (Lloegr yn unig)<br>• Digartrefedd<br>• Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | amgylchedd diogel a chynhwysol er mwyn eu helpu i dyfu, gan roi'r sgiliau iddynt symud ymlaen i addysg bellach neu gael cyflogaeth ystyrlon. Mae ffocws hefyd ar sut rydym yn sicrhau integreiddio o fewn cymunedau i sicrhau llesiant a chymunedau cydlynol yn ogystal â gweithio ar y cyd i fynd i'r afael â materion a achosir gan dlodi er mwyn meithrin Cymru lewyrchus.<br><br>*Mae deall eich hunaniaeth yn rhan bwysig o ddatblygiad plentyn. Mae'n digwydd ym mlynyddoedd cynnar ei fywyd ac yn ei ddilyn i fyd oedolion.*<br><br>*Nid yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn ein lleoliadau addysg a dysgu yn gysyniad newydd ac mae'n parhau i fod yn her barhaus ym Mlaenau Gwent. Gwyddom fod diwylliannau* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *dysgu teg a chynhwysol yn hyrwyddo tegwch, mynediad, cyfranogiad a chyflawniad i bob dysgwr, waeth beth fo'u hunaniaeth, gallu neu amgylchiadau.* | | |

| **Adran 9 – Data – Amlinellwch unrhyw ddata neu dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynnig – gall hyn fod yn ymgynghoriadau blaenorol, data lleol/cenedlaethol, prosiectau peilot, adroddiadau, adborth gan gleientiaid ac ati** | | |
|---|---|---|
| **Data/tystiolaeth – pa ddata/tystiolaeth a ddefnyddiwyd? – darparwch unrhyw ddolenni** | **Beth oedd y canfyddiadau allweddol?** | **Sut mae'r data/tystiolaeth wedi llywio'r cynnig hwn?** |
| • **Data arolygon**<br>• **Data ar y gweithlu**<br>• **Data hyfforddiant**<br>• **Ymgysylltu wyneb yn wyneb**<br>• **Asesiadau effaith ar y gymuned**<br>• **Adroddiad "A yw Cymru'n Decach" y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**<br>• **"Nid ymarfer ticio blychau yn unig" Archwilio Cymru**<br>• **Cynllun Gwrth-hiliol Llywodraeth Cymru** | https://sway.cloud.microsoft/KkstkgSTrHjxFQln?ref=Link&loc=mysways | Defnyddiwyd yr holl ddata/tystiolaeth i lunio'r amcanion ac amlinelliad y cynllun, ac yna cynhaliwyd ymgynghoriad pellach ar y rhain a oedd yn cynnwys y canlynol:<br>• Arolwg pellach<br>• Cyfarfodydd timau rheoli adrannol<br>• Ymgynghori â grwpiau fel y fforwm ieuenctid<br>• Ymgysylltu wyneb yn wyneb |

| | | |
|---|---|---|
| • **Cynllun Gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru**<br>• **Adroddiad "Cymerwch y peth o ddifri" y Comisiynydd Plant** | | Fe wnaeth hyn, ynghyd â'r hyn a wyddom, helpu i ddyfeisio'r cynllun ar gyfer 2024-2028. |
| **A oes unrhyw fylchau mewn data neu wybodaeth ac, os felly, beth ydynt a sut yr ydych yn bwriadu mynd i'r afael â hwy?** | | |
| | | |

**Adran 10 – Ymgynghori. Darparwch fanylion ymgynghori a gynhaliwyd i gefnogi'r cynnig. Ystyriwch egwyddorion Gunning:**

Egwyddor 1: Rhaid ymgynghori pan fydd y cynigion yn dal yn y cyfnod ffurfiannol. Rhaid i chi fod wedi peidio penderfynu yn barod.

Egwyddor 2: Rhaid rhoi rhesymau digonol i ganiatáu ystyriaeth ac ymateb deallus. A yw pobl wedi cael yr wybodaeth a'r cyfle i ddylanwadu ar y cynnig?

Egwyddor 3: Rhaid rhoi digon o amser i ystyried ac ymateb. A yw'r ymgynghoriad yn ddigon hir o ystyried yr amgylchiadau?

Egwyddor 4: Rhaid ystyried cynnyrch yr ymgynghoriad yn gydwybodol wrth wneud y penderfyniad terfynol.

**Disgrifiwch yn gryno unrhyw ymgynghoriadau sydd wedi'u cynllunio neu ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal hyd yma. Ystyriwch yr egwyddorion uchod.**

**Ystyriwch y cwestiynau canlynol os gwelwch yn dda:**

**1. Â phwy y bu i chi ymgynghori?**

- Staff, rheolwyr, grwpiau, partneriaid, grwpiau cymunedol ac unigolion

**2. Pryd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad ac a roddwyd digon o amser ar gyfer ymateb?**

- Arolwg cychwynnol Hydref 2023 ac ymgysylltu wyneb yn wyneb cychwynnol
- Cyfarfodydd timau rheoli adrannol – Ionawr 2024
- Ymgynghori ffurfiol rhwng Rhagfyr 2023 a diwedd Ionawr 2024
- Sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb pellach – Ionawr 2024

**3. A ddarparwyd digon o wybodaeth i ymateb yn effeithiol?**
Do
Gellir dod o hyd i fanylion cryno yma:

https://sway.cloud.microsoft/KkstkgSTrHjxFQln?ref=Link&loc=mysways

**4. Beth oedd y canfyddiadau?**
Y prif faterion a godwyd oedd:

- Cludiant
- Costau byw
- Tai

**5. A yw'r canfyddiadau wedi'u hystyried mewn perthynas â'r penderfyniad?**

Ydy, mae'r holl ganfyddiadau, gan gynnwys adroddiadau a data eraill, wedi'u defnyddio i lunio'r cynllun newydd ar gyfer 2024-2028.

| **Adran 11 – Monitro ac Adolygu** | |
|---|---|
| **Sut bydd gweithrediad y cynnig yn cael ei fonitro, gan gynnwys yr effeithiau neu'r newidiadau a wnaed?** | Bydd yn cael ei fonitro'n rheolaidd wrth gael ei gyflwyno i sicrhau bod y camau gweithredu'n cael eu cyflawni ac er mwyn ffurfio camau gweithredu newydd i wella'n barhaus a gweithio tuag at yr amcanion a amlinellwyd. Bydd y cynllun hefyd yn destun adroddiad blynyddol fel rhan o'n dyletswyddau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. |
| **Pa offer monitro fydd yn cael eu defnyddio?** | Bydd cynlluniau gweithredu yn cael eu datblygu yn unol â'r amcanion<br>Bydd y camau hynny'n cael eu hadrodd yn rheolaidd yn erbyn y broses adrodd gorfforaethol<br>Bydd hyn yn cael ei rannu gyda'r grŵp rhanddeiliaid, lle byddwn yn darparu diweddariadau ac yn edrych ar atebion neu gamau gweithredu pellach i'w hystyried |
| **Sut bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol?** | Defnyddir y canlyniadau i adeiladu ar waith da ac adeiladu cam nesaf y cynlluniau gweithredu tuag at yr amcanion cyffredinol yn y cynllun pedair blynedd |
| **Sut a phryd y caiff ei adolygu?** | Trwy'r broses adrodd gorfforaethol chwarterol<br>Adroddiad blynyddol |
| **Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod hyn yn digwydd?** | Tîm polisi a phartneriaethau |

| **Adran 12 – Penderfyniad**<br><br>*Gan ddefnyddio'r wybodaeth yr ydych wedi'i chasglu o adrannau 1-9, nodwch yn y tabl isod a allwch fwrw ymlaen â'r cynnig.* | | |
|---|---|---|
| Parhau gyda'r cynnig yn ei ffurf bresennol | **Parhau X** | **Peidio â pharhau** |
| Parhau gyda'r cynnig ond cymryd i ystyriaeth gamau rhesymol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol y cynnig | **Parhau ☐** | **Peidio â pharhau ☐** |

| **Enw'r sawl sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith Integredig** | |
|---|---|
| **Enw:** | **Lissa Friel** |
| **Teitl y swydd:** | **Swyddog Polisi Cydraddoldeb ac Ymgysylltu** |
| **Dyddiad:** | **27 Chwefror 2024** |

| **Cymeradwyaeth Pennaeth Gwasanaeth** | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw:** | **Sarah King** | | |
| **Teitl y swydd:** | **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethu a Phartneriaethau** | | |
| **Llofnod:** | | **Dyddiad:** | **28/02/2024** |